# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 16 Hydref 2006

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau*

**Mick Bates (Sir Drefaldwyn):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd mewn perthynas â'r broblem paill ar Reilffordd Lein y Cambrian. (WAQ48159)

**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y swyddogion a gyflogir ym maes datblygu economaidd a thrafnidiaeth. (WAQ48164)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau*

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer yr athrawon newydd gymhwyso sydd wedi gadael Cymru i ddysgu mewn rhan arall o'r DU. (WAQ48152)

**Janet Ryder (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae'n bwriadu dosbarthu'r £50,000 sydd newydd ei gyhoeddi i gynorthwyo'r "Disgyblion Mwyaf Dawnus" yng Nghymru. (WAQ48158)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y swyddogion a gyflogir yn yr adran amaeth. (WAQ48165)

**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y swyddogion a gyflogir i ddelio â materion newid yn yr hinsawdd. (WAQ48166)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A fydd Cardiau Nadolig Llywodraeth Cynulliad Cymru eleni'n cael eu hariannu gan y trethdalwr, ac os felly, beth yw cyfanswm y gost a ragwelir, gan gynnwys unrhyw ffioedd hawlfraint. (WAQ48156)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Yn dilyn WAQ45957, faint a wariwyd ar ffioedd hawlfraint, gan gynnwys ffioedd a dalwyd i wneuthurwyr Scrabble. (WAQ48149)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Yn dilyn WAQ45957, a wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad llawn o'r gost hon a nodi faint a wariwyd gan bob Gweinidog. (WAQ48150)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Yn dilyn WAQ45957, a yw'r cyfanswm o £5,302.20 yn cynnwys y £2,000 a wariwyd ar gael caniatâd er mwyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon ddefnyddio gêm Scrabble ar ei gerdyn Nadolig ac o ba gyllideb y talwyd y £2,000. (WAQ48157).

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint y mae Her Iechyd Cymru wedi'i wario ar hysbysebu ymhob un o'r tair blynedd ariannol diwethaf. (WAQ48155)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad o gyfanswm y gyllideb ar gyfer Her Iechyd Cymru. (WAQ48151)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr arbedion effeithlonrwydd a ddisgwylir gan Gyngor Sir Powys ar eu cyllideb ar gyfer 2007-08. (WAQ48153)

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gyllideb ar gyfer Cyngor Sir Powys ar gyfer 2007-08. (WAQ48154)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Leanne Wood (Canol De Cymru):** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi eu gwneud i'r Swyddfa Gartref i sicrhau na fydd yr adnoddau a wariwyd ar fethiant y broses i uno'r heddluoedd yn effeithio ar gynllunio ariannol y pedwar heddlu ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol. (WAQ48160)

**Leanne Wood (Canol De Cymru):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda'r Swyddfa Gartref ynghylch yr adnoddau ariannol a wariwyd gan bedwar heddlu Cymru wrth baratoi ar gyfer y cynigion i uno'r heddluoedd. (WAQ48161)

**Leanne Wood (Canol De Cymru):** A yw'r Gweinidog wedi ystyried gwasanaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru y gellid eu cynnig drwy rwydwaith y Swyddfeydd Post. (WAQ48162)

**Leanne Wood (Canol De Cymru):** Pa ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i'r cynnig o ofyn i awdurdodau lleol hyrwyddo'r defnydd o swyddfeydd post fel ffordd o ddarparu gwasanaethau a chasglu taliadau am wasanaethau. (WAQ48163)